CYNGOR CYMUNED LLANDDYFNAN

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FAWRTH
16 Hydref 2018, Neuadd Talwrn
am 7:00 y.h.

YN BRESENNOL: Cyng W Vaughan, D Roberts, W Williams, A Williams, D Pritchard, D Rees (Cyngor Sir)	
YMDDIHEURIADAU: Cyng C Jones, A Wyn, C McGregor, D ap Rhobert, G D Williams, D Morgan Yn absennol heb ymddiheuriad: Cyng A C Jones	
1	Cadeirwyd y cyfarfod gan Cyng A Williams
2	**DATGAN DIDDORDEB** - Dim
3	**DERBYN COFNODION** Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 25.09.18. Fe'u derbyniwyd fel rhai cywir a chyflawn. Cyng D Pritchard yn cynnig a Cyng W Vaughan yn eilio.
4	**MATERION YN CODI O'R COFNODION**
4.1	**Gofeb Talwrn** - Mae'r Clerc wedi cyflwyno cais adeilad rhestredig i'r adran cynllunio a wedi derbyn ymateb yn gofyn am llun o'r plac. Bydd y Clerc yn trefnu hyn gyda'r ficer. Ar hyn o bryn mae'r ficer ar ei wyliau
4.2	**Halfway, Talwrn (ildio)** - Mewn llaw
4.3	**Mynwent Llanddyfnan (perchnogaeth)** - Mewn llaw
4.4	**Llwybr wrth ymyl yr Hen Siop Talwrn** - Mae'r Cyngor Sir wedi ymateb ac y cynnig hawl i'r Cyngor Cymuned cynnal y llwybr. Cytunwyd i ofyn i Gareth Hughes (y contractwr torri gwair) am pris i twtio y llwybr
4.5	**Glaswellt Maes y Coed** - Mae'r Clerc wedi derbyn pris gan Gareth Hughes am torri'r glaswellt - £80.00 am y toriad cyntaf a 3 toriad blwyddyn nesaf £40.00 yr un. Cytunwyd i symud ymlaen.
4.6	**Lloches bws, Talwrn** - Mae'r Cyngor Sir wedi gofyn am cyfarfod ar y safle. Cynigodd Cyng W Vaughan mynychu'r cyfarfod gyda'r Clerc
4.7	**Gors Bodeilio** - Nid yw y Clerc wedi clywed ymhellach gan Cyfoeth Naturiol Cymru
5	**GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MON**
	Priffyrdd
5.1	Cysgodfan Bws Talwrn - gweler 4.6
	Prif Weithredwr
5.2	Siapio Lle - Bydd cyfarfod yn cael ei gynnal yn yr Iorwerth, Bryngwran am 6:30 ar 15ed o Dachwedd
6	**GOHEBIAETH YCHWANEGOL**
	Dim
	Llofnod…….Cadeirydd 27.11.18

7	**MATERION ARIANNOL**
	Cytunwyd i dalu:
7.1	Anglesey Computer Solutions £55.00
7.2	G Hughes, torri gwair £375.00
7.3	Adolygiad ariannol chwarterol - Derbyniwyd adroddiadau y Clerc/Swyddog Cyllid sydd yn cadarhau bod digon o incwm a chronfeydd i gynnal chostau hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol
8	**MATERION ERAILL**
8.1	Cwyn gan Mrs Manon Hughes, Bryn Treban i wneud a dim cysylltiad Broadband (cyflymder uchel). Mae'r Clerc wedi dod a'r mater at sylw BT
8.2	Cyflwr y lôn wrth ymyl Bryn Gors a Glan Gors, Talwrn. Dywedodd Cyng W Williams bod y gwaith wrth ymyl Glan Gors wedi'i wneud ond dim Bryn Gors. Bydd y Clerc yn dod â'r mater at sylw y Cyngor Sir
9	**MATERION AR GYFER Y RHAGLEN NESAF**
	Dim
	Llofnod…….Cadeirydd 27.11.18